Datganiad Anheddle
Y Borth
Inset Rhif 147

Disgrifiad

Mae'r Borth yn bentref mawr glan-môr gydag oddeutu 600 o anheddau a phoblogaeth o 1,200 ym 1991. Mae'r dref ryw 11.3 km (7 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth ar y B4353 a'r B4575. Mae rheilffordd Aberystwyth Amwythig yn rhedeg i'r dwyrain o'r Borth.

Mae'r dref mewn man amlwg iawn. Saif y Borth ar dafod graeanog a chlogwyni yng nghornel de orllewinol Cors Fochno. Mae traeth tywod melyn yn ymestyn dros 6.4 km (4 milltir) o'r clogwyni yn y Borth Uchaf i aber Afon Dyfi yn Ynys-las. Mae mynyddoedd de Eryri a godreon gorllewinol Mynyddoedd Cambrian yn gefndir i'r dref.

Mae yn y Borth amrywiaeth dda o wasanaethau a chyfleusterau, sy'n cynnwys ysgol gynradd, meddygfa a phedwar man addoli. Ceir cae chwarae mawr yno hefyd, caeau chwarae Uppingham, a chlwb golff. Mae llawer o wasanaethau a chyfleusterau'r Borth yn dymhorol iawn o ran natur, gan ddarparu ar gyfer y farchnad dwristiaid. Weddill y flwyddyn, mae amrywiaeth digonol o siopau, tafarndai a garejis yn dal ar agor i ddarparu ar gyfer y boblogaeth leol. Mae'r Borth wedi'i gysylltu â'r prif ddraeniad. Weithiau ceir llifogydd mewn rhannau o'r dre pan fydd y môr yn llifo dros y morglawdd.

Y diwydiant twristiaeth sy'n cynnal economi'r Borth i raddau helaeth. Ei draeth tywod 4 milltir o hyd a chefn gwlad gogledd Ceredigion yw ei brif rinweddau. Mae'r dref yn denu ymwelwyr o bob man yn y wlad, yn enwedig o Ganolbarth a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae mwyafrif yr ymwelwyr hyn yn aros ym mharciau carafanau sefydlog y Borth, sy'n cynnwys dros 6,000 o fannau cysgu.

Saif y Borth ar ymyl amgylchedd naturiol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae aber Afon Dyfi a rhannau o Gors Fochno wedi'u dynodi'n Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, GNC Dyfi a Chors Fochno. Mae aber afon Dyfi hefyd wedi'i dynodi'n Wlyptir o Bwysigrwydd Cenedlaethol o dan Gytundeb RAMSAR. Mae'r amgylchedd adeiledig hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y dref. Mewn mannau, mae gan y Borth ddelwedd o fod wedi dirywio ychydig. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i rannau o'r dref, yn enwedig ardal Teras Cambrian. Byddai rhannau eraill o'r dref yn elwa hefyd yn sgil gwelliannau tebyg i'r amgylchedd.

Ymateb i'r Ymgynghori

Gwrthwynebiad cryf i gynnwys safle mawr yn y Borth Uchaf ar y sail nad oes cyfiawnhad dros y lefel dai gyffredinol a gynigir yn y CDU, ac y byddai'r datblygiad yn amlwg iawn ar y gorwel ac yn graith hyll ar y tirlun pan nad oes llawer o ardaloedd gwyrdd ar ôl yn y pentref eisoes. Pryder bod ffyrdd mynediad yn gwbl anaddas a bod cartrefi fforddiadwy sydd wedi'u hadeiladu yn y Borth heb eu gwerthu i barau ifainc lleol.

Settlement Statement
Borth
Inset Number 147

Description

Borth is a large coastal village of around 600 dwellings and a population of 1,200 in 1991. The town is located some 11.3 km (7 miles) north of Aberystwyth on the B4353 and B4575. The Aberystwyth Shrewsbury railway line runs to the east of Borth.

The town has a very prominent setting. Borth is situated upon a shingle spit and cliffs at the south west corner of Borth Bog. A 6.4 km (4 mile) long golden sandy beach stretches from the cliffs at upper Borth to the mouth of the River Dyfi at Ynyslas. The southern Snowdonia mountains and western foothills of the Cambrian Mountains provide the backdrop to the town.

Borth possesses a good range of services and facilities. There is a primary school, doctor's surgery and four places of worship. A large playing field, Uppingham playing fields and a golf club are also present. Many of Borth's services and facilities are highly seasonal in nature catering for the tourist market. Out of season, an adequate range of shops, public houses and garages remain open to cater for the resident population. Borth is connected to mains drainage. Tidal flooding caused by overlapping of the sea wall does occasionally occur in parts of the town.

Borth's economy is underpinned to a large extent by the tourist industry. Borth's main assets are the 4 mile long sandy beach and the countryside of north Ceredigion. The town attracts visitors from many parts of the country, especially the Midlands and North West. The majority of these visitors are accommodated in Borth's static caravan parks which contain over 6,000 bedspaces.

Borth is located on the edge of a natural environment of international importance. The Dyfi estuary and parts of Borth bog have been designated as a National Nature Reserve, the Dyfi and Cors Fochno NNR. The Dyfi estuary has also been designated as a Wetland of International Importance under the RAMSAR convention. The built environment also makes a significant contribution to the character of the town. In places, Borth has a slightly run down image. Substantial improvements have been made to parts of the town, particularly the Cambrian Terrace area. Other parts of the town would benefit from similar environmental improvements.

Consultation Response

Strong objection to the inclusion of a large site in Upper Borth on the grounds that the general level of housing proposed in the UDP is not justified, that the development would be very prominent on the sky line and an ugly blot on the landscape when there are very few green areas left within the village. Concern that access roads are totally unsuitable and the affordable homes that have been built in Borth have not gone to local young couples

Gweledigaeth ar gyfer y Gymuned

Bydd y rheiny a fu'n bresennol yn Ymarferiad Gweledigaeth y Borth ym mis Mai 2001 wedi gadael gan deimlo bod y Borth yn gymuned gosmopolitaidd fywiog unigryw. Nid y priodweddau hynny a wnâi i bobl deimlo bod y Borth yn arbennig yn ffisegol, yn rhyfedd iawn, oedd y traeth, y twyni tywod, y clogwyn, y cwrs golff a'r gors i raddau llai. Yn gymdeithasol, ei bobl, y neuadd, y tafarndai, y carnifal, a bywiogrwydd clybiau lleol a chymdeithasau gwirfoddol megis y Bad Achub sy'n gwneud y Borth yn arbennig.

Roedd yr awgrymiadau a gafwyd ar y noson ar gyfer gwelliannau a fyddai'n gwneud y Borth yn lle gwell i fyw ynddo ac ymweld ag ef yn cynnwys cyfleuster harbwr gweithio, gwelliannau i amwynderau a'r tirwedd (yn enwedig ar y ffordd i'r Borth o gyfeiriad Llandre), canolfan TG gymunedol, swyddi parhaol, cyfleusterau parcio gwell a mwy o lwybrau troed a beicio.

Er gwaetha teimladau cryfion yn erbyn sgïo jet, cydnabuwyd y gellid eu defnyddio o bosibl mewn ardaloedd diffiniedig o'r traeth.

Oherwydd y boblogaeth leol cymharol fawr a bod y dref yn agos at Aberystwyth, bydd y Borth yn parhau i gael ei datblygu rywfaint ymhellach, er na fydd hyn yn digwydd ar yr un raddfa â'r 15 mlynedd a aeth heibio. Er y bydd rhai unedau yn dod ymlaen fel unedau mewnlenwi yn rhan isaf y Borth, disgwylir y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu datblygu ar y dynodiad safle cymysg gyferbyn â'r ysgol. Mae tir wedi'i gynnwys yma i ganiatáu lle i'r ysgol ehangu, lle ar gyfer maes parcio/ardal gollwng teithwyr, ac i leoli tai gerllaw un o'r prif gyfleusterau cymunedol yn y dref. Dylai unrhyw ddatblygiad geisio darparu cymysgedd o dai i sicrhau bod pobl leol yn gallu fforddio'r unedau, a bydd safonau uchel o ran cynllunio a thirlunio yn angenrheidiol.

Lle mae safleoedd sy'n ymestyn yn ôl i'r rheilffordd yn cael eu datblygu yn y Borth isaf, dylai cynlluniau sicrhau creu mynedfeydd newydd i unrhyw leiniau o dir anghysbell er mwyn atal rhannau rhag cael eu tirgloi rhwng datblygiad newydd a'r rheilffordd.

Cyfyngiadau ar Ddatblygu

Diffyg tir addas sydd ar gael ar gyfer ei ddatblygu, yn sgil cyfyngiadau ffisegol y môr ar y naill ochr a thir corsiog ar yr ochr arall.
Dynodiad ardal tirwedd arbennig.
Dynodiadau Gwarchodaeth Natur.
Tir comin.

[Tudalen nesaf yw tud 335]

Vision for the Community

Those who attended the Borth Vision Exercise in May 2001 will have come away feeling Borth to be a unique vibrant cosmopolitan community. The attributes that people thought physically made Borth special were not surprisingly the beach, the sand dunes, the cliff, the golf course and to a lesser extent the bog. Socially its the people, the hall, the pubs, the carnival, and the vibrancy of local clubs and voluntary organisations like the Lifeboat that make Borth special.

Suggestions, from the evening, for improvements that would make Borth a better place to live and visit included a working harbour facility, amenity and landscape improvements (especially on the approach to Borth from the Llandre direction), a community IT centre, permanent jobs, better parking and more footpaths and cycleways.

Despite strong feelings against jet skis there was recognition that they could possibly be accommodated in defined areas of the beach.

Due to the relatively large resident population and its proximity to Aberystwyth, Borth will continue to be the focus for some development though this should not be at the same rate as the previous 15 years. Whilst some units will come forward as infill within the lower part of Borth, most will be expected to be developed on the mixed site designation adjacent to the school. Land has been included here to allow space for the school to expand, to allow for a car park/dropping off area and to locate housing close to one of the main community facilities in the town. Any development should seek to provide a mix of housing to ensure units are affordable to local people, high standards of design and landscaping will be necessary.

Where sites stretching back to the railway are developed in lower Borth, schemes should ensure that new accesses are created to any outlying parcels of land in order to prevent sections being land locked between new development and the railway.

Constraints on Development

Lack of suitable, available land for development. due to the physical constraints of the sea to one side and boggy land to the other.
Special landscape area designation.
Nature Conservation designations.
Common land.

[The next page is p 335]